

Rhifyn 52
Rhyfedd!

Eliffantod rhyfeddol

Mae'r sleidiau isod yn dangos gŵyl arbennig sy'n digwydd ym mis Mawrth. Edrychwch ar y sleidiau a meddyliwch am y cwestiynau hyn:

- Pa fath o wyl yw hi, tybed?
- Beth yn union sy'n digwydd? Edrychwch yn ofalus ar y lluniau.
- Ble? Chwiliwch am gliwiau yn y lluniau.

Sleid 1:



Sleid 4:



Sleid 2:



Sleid 5:



Sleid 3:



Sleid 4: [Polo all-stars going trunk to trunk](#) - rodeime © Flickr



Sleid 5: [Soco v's British Army 5](#) - rodeime © Flickr

Trafodwch y cwestiynau uchod a gwnewch nodiadau. Yna, ewch i'r adran Atebion.

Plogio

Mae Lucas a Sofia, ffrindiau ysgol, yn siarad ar y stryd.

Sofia:	Beth wyt ti'n wneud?
Lucas:	Dw i'n mynd i loncian.
Sofia:	Ond pam wyt ti'n gwisgo menig ac yn cario bag sbwriel du?
Lucas:	Achos dw i'n mynd i wneud ychydig o blogio.
Sofia:	Plogio?
Lucas:	Ie, plogio! Hobi newydd o Sweden yw e, er bod pobl mewn rhannau eraill o'r byd yn ei wneud e erbyn hyn hefyd.
Sofia:	Beth yw ystyr plogio 'te?
Lucas:	Loncian a chodi sbwriel yr un pryd. Dyna pam dw i'n gwisgo menig ac yn cario bag sbwriel du. Os bydda i'n gweld sbwriel ar y ddaear wrth i fi redeg, bydda i'n ei godi e ac yn ei roi e yn y bag.
Sofia:	O!
Lucas:	Mae'n ymarfer da.
Sofia:	Wel, ydy, mae rhedeg yn dda i ti. Mae'n cryfhau dy goesau di ac yn dda i dy gorff di'n gyffredinol.
Lucas:	Ydy, ond gan fy mod i'n cario sbwriel, bydda i'n cario ychydig o bwysau hefyd, sy'n golygu fy mod i'n cael gwell ymarfer corff! Bydda i'n gwneud sgwatiau wrth i fi blygu i godi sbwriel hefyd. Mae hyn yn wych!
Sofia:	Ydy, mae'n siŵr.
Lucas:	Ac mae'n gwneud i fi deimlo'n dda hefyd achos dw i'n helpu'r amgylchedd. Dw i'n gwneud rhywbeth sy'n dda i fi ac sy'n dda i'r amgylchedd.
Sofia:	Beth wyt ti'n wneud gyda'r pethau rwyt ti'n casglu?
Lucas:	Dw i'n ailgylchu rhai pethau ac yna dw i'n taflu'r gweddill yn y bin sbwriel. Wyt ti eisiau dod gyda fi yfory?
Sofia:	Dw i ddim yn siŵr.
Lucas:	Dwyt ti ddim yn poeni am yr amgylchedd 'te?
Sofia:	Ydw, wrth gwrs! Dw i'n cymryd rhan yn ymgyrch y pentre i glirio'r traeth bob blwyddyn, felly dw i'n gwneud fy rhan.
Lucas:	Wyt, chwarae teg – ond mae loncian a chlirio'n hwyl – ac mae'n dod yn fwy poblogaidd bob dydd. Edrycha ar faint o bobl sy'n postio lluniau ohonyn nhw eu hunain yn gwneud hyn ac mae rhai'n trydar yn gofyn am bobl i fynd allan i loncian gyda nhw.
Sofia:	O, iawn – wela i di yma yfory 'te, am ddeg o'r gloch, a bydd gen i fag sbwriel enfawr i godi'r holl sbwriel!
Lucas:	Gwych. Tan yfory, felly ...



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
loncian	rhedeg yn araf	(to) jog, jogging
amgylchedd	y byd o gwmpas	environment
ailgylchu	defnyddio rhywbeth eto; troi gwastraff yn rhywbeth mae'n bosib ei ddefnyddio eto	(to) recycle, recycling
llesol	gwneud daioni	beneficial
gweddill	beth sydd ar ôl	the rest, remainder
ymgyrch	pobl yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud rhywbeth	campaign
gwneud fy	gwneud cyfraniad	(to) do my bit

Byw heb ffôn symudol?



Mae rhai pobl yn gaeth i'w ffonau symudol.

- Dydyn nhw ddim yn teimlo'n hapus os nad yw eu ffôn yn eu llaw.
- Dydyn nhw ddim yn gallu bwyta pryd o fwyd, gwylio ffilm, mynd allan gyda ffrindiau na mynd am dro heb edrych ar eu ffôn yn aml!
- Dydyn nhw ddim yn gallu mynd i'r gwely os nad yw eu ffôn gerllaw.

Mae rhai ohonyn nhw mor gaeth, maen nhw'n poeni am gollu eu ffôn neu maen nhw'n poeni fyddan nhw ddim yn gallu defnyddio'u ffôn am ryw reswm, e.e. oherwydd bod dim signal.

Maen nhw'n dioddef o 'nomoffobia' (*no-more-phone-ia*). Ystyr 'ffobia' yw ofn afresymol.

Mae angen help ar y bobl hyn – help i fedru byw heb eu ffôn!

... A dyma'r help!

Mae dyn o'r enw Klemens Schillinger wedi dyfeisio ffôn arbennig iawn. Mae e'r un maint â ffôn symudol arferol ond mae e'n wahanol iawn!

- Dydy e ddim yn gallu gwneud galwadau.
- Dydy e ddim yn gallu derbyn galwadau.
- Dydy e ddim yn gallu lawrlwytho apiau.
- Dydy e ddim yn gallu cysylltu â'r we.

Dydy e ddim yn gallu gwneud unrhyw beth technolegol ond mae e'n gallu helpu pobl sydd eisiau defnyddio'r ffôn yn llai aml. Mae e'n gallu helpu pobl i fod yn llai caeth i'w ffonau.

Yn lle sgrolio a sweipio ar ffôn go iawn, mae'r bobl yma'n gallu sgrolio a sweipio'r peli bach cerrig sydd yn y ffôn yma ac mae hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo'n well. Mae hyn yn therapi diddorol iawn ar gyfer unrhyw un sy'n dioddef o nomoffobia!



[Cliciwch yma](#) os hoffech chi weld sut i ddefnyddio'r ffôn.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
yn gaeth i	methu dod yn rhydd o afael rhywbeth	addicted to
gerllaw	yn agos	nearby
afresymol	heb reswm	irrational
galwadau	lluosog galwad ; pan fydd rhywun yn eich ffonio	calls
lawrlwytho	llwytho i lawr	(to) download
cysylltu	rhoi mewn cysylltiad â	(to) connect

Miss Camel y Byd

Twyllo mewn cystadleuaeth harddwch

Cafodd deuddeg o gamelod eu gwahardd o gystadleuaeth harddwch ym mis Ionawr eleni.



Roedden nhw i gyd yn cystadlu mewn gŵyl gamelod enfawr, a oedd i bara am fis cyfan, ar gyrion Riyadh, prifddinas Saudi Arabia. Roedd yr ŵyl flynyddol hon wedi denu tua 30 000 o gamelod, gyda phob un yn awyddus i ennill tua 3.7 miliwn o bunnau, sef y wobr ar gyfer pob categori unigol yn y gystadleuaeth. Yn wir, roedd cyfanswm y gwobrau dros 40 miliwn o bunnau, swm sylweddol iawn, a dyma oedd yn gyfrifol, efallai, am benderfyniad rhai pobl i dwyllo!

Pam gwahardd?

Wrth geisio dewis y camel harddaf, mae'r beirniaid yn chwilio am wddf hir, gwefusau mawr a chrwmp da fel arfer. Yn ogystal, mae trwyn mawr a chlustiau bach yn bwysig. Gan fod y gwobrau mor fawr, mae'r perchnogion yn gwneud pob ymdrech i harddu eu hanifeiliaid. Yn wir, cyn y gystadleuaeth, mae llawer ohonyn nhw'n cribo blew'r camelod ac yn defnyddio hairspray i geisio'u cadw'n hardd. Mae rhai eraill yn tyllino cyrff eu hanifeiliaid.

Ond yn y gystadleuaeth eleni (2018), daeth yn amlwg bod rhai camelod wedi cael eu trin yn fwy eithafol byth! Roedd milfeddyg wedi bod yn rhoi pigiadau tebyg i Botox i wefusau, trwyn a gên rhai o'r anifeiliaid er mwyn gwneud i'r pen, ac yn arbennig y gwefusau a'r trwyn, ymddangos yn fawr. Roedd y milfeddyg wedi bod yn torri clustiau rhai o'r anifeiliaid hefyd er mwyn gwneud iddyn nhw ymddangos yn dlws.

"Mae twyllo yn ofnadwy," meddai un o'r miloedd o ddynion oedd wedi dod i'r wyl. "Rhaid i ni gosbi'r bobl sy'n twyllo yn llym. Rydyn ni'n cosbi pobl sy'n twyllo mewn chwaraeon, felly dylen ni gosbi twyllwyr mewn cystadlaethau harddwch hefyd!"

Beth sy'n digwydd

Yn ogystal â'r gystadleuaeth harddwch, mae llawer o weithgareddau diddorol eraill yn ystod yr ŵyl, fel rasys camelod, stondinau amrywiol, marchnad arbennig, dawnsio, canu a mwy!

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, ysgrifennwch aton ni, mae'r cyfeiriad ar dudalen olaf y rhifyn hwn.



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
gwahardd	rhwystro neu atal rhywun rhag gwneud rhywbeth	(to) disqualify
awyddus	brwd, bod eisiau gwneud rhywbeth	eager
sylweddol	mawr	substantial, significant
crwmp	darn wedi ei chwyddo ar gefn camel	hump
tylino	rhwbio rhan o'r corff	(to) massage

Crwn a lliwgar ...?

Maen nhw'n grwn ac yn lliwgar, ond beth ydyn nhw?

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma a cheisiwch ddyfalu beth ydy'r pethau crwn a lliwgar.

Sleid 1:



Sleid 4:



Sleid 2:



Sleid 5:



Sleid 3:



Sleid 6:



Chwiliwch am gliwiau:

Edrychwch yn ofalus ar sleidiau 1 - 4 eto a cheisiwch ateb y cwestiynau yma:

Sleid 1:	Pa fath o adeiladau sydd yn y ddelwedd? Ble fyddech chi'n gweld yr adeiladau hyn?
Sleid 2:	Pa fath o ddillad sydd yn y ddelwedd? Ble fyddech chi'n debygol o weld y dillad hyn?
Sleid 3:	Beth yw'r adar? Chwiliwch am bosibiliadau ar y we os nad ydych chi'n siŵr. Mae'r adar yma'n lwcus iawn yn y wlad hon.
Sleid 4:	Beth yw'r blodau? Mae miliynau ohonyn nhw i'w gweld ar goed yn y wlad hon yn y gwanwyn.

Nawr, edrychwch ar y pethau crwn eto – beth allen nhw fod?

Beth sydd o gwmpas y pethau crwn?

Ble maen nhw wedi eu gosod?

Ewch i'r adran **Atebion** i gael yr atebion.

Chwaraeon Ninja

 Erin	<p>Mae'n hen bryd newid y dewis o chwaraeon yn yr ysgol. Dw i newydd fod yn chwarae hoci yn y glaw – yn y mwd, ar gae gwlyb, llithrig, corsiog, ych a fi! Mae croen fy nghoesau i'n goch gydag oerfel a dw i'n teimlo'n ddiflas tu hwnt. Dw i'n credu'n gryf mewn cadw'n heini, ond ...</p>
 Idris	<p>Dw i'n cytuno! Dw i'n casáu rhai chwaraeon yn yr ysgol. Mae'n hen bryd cael sesiynau mwy cyffrous lle mae'r disgyblion yn mwynhau. Does dim rhyfedd bod rhai pobl ifanc yn meddwl bod chwaraeon yn ddiflas a'u bod yn penderfynu peidio â gwneud ymarfer corff ar ôl gadael yr ysgol.</p>
 Surita	<p>Beth am chwaraeon Ninja?</p>
 Erin	<p>Beth yw chwaraeon Ninja?</p>
 Rhys	<p>Chwaraeon lle mae'n rhaid i chi wneud campau gwahanol.</p>
 Erin	<p>Fel beth?</p>
 Rhys	<p>Mae llawer o gampau gwahanol, e.e. dringo i fyny tyrau uchel a neidio i lawr ar fagiau aer enfawr, dringo dwy wal gyfochrog yr un pryd, fel corryn – gyda'ch troed a'ch braich chwith ar y wal chwith a'ch troed a'ch braich dde ar y wal dde.</p>
 Idris	<p>Waw!</p>
 Rhys	<p>Hefyd, camu o foncyff i foncyff ...</p>

 Emma	Hawdd!
 Rhys	... ond mae'r boncyffion yn troi. Yn ogystal, beth am swingio o wrthrych i wrthrych sy'n uchel o'r ddaear er mwyn cyrraedd diwedd y cwrs. Rhaid i chi fod yn gryf iawn i wneud hyn – rydych chi'n gallu teimlo cyhyrau rhan uchaf eich corff yn tynhau.
 Matt	A beth am yr ymarfer gydag ysgol sydd wedi ei gosod tua 2 fetr uwch eich pen? Rhaid swingio o ris i ris er mwyn cyrraedd diwedd y cwrs. Rhaid cael breichiau cryf i wneud hyn!
 Erin	Mae'r campau hyn yn swnio'n hwyl.
 Catrin	Mae'r campau hyn yn wych i'r corff. Maen nhw'n cryfhau'r cyhyrau, yn cyflymu cyfradd y pwls ac felly mae ocsigen yn cael ei bwmpio o gwmpas y corff yn fwy effeithiol. Maen nhw'n gallu arwain at deimlo'n fwy effro ac maen nhw'n help ar gyfer colli pwysau hefyd.
 Rhys	Maen nhw'n helpu i ddatblygu personoliaeth hefyd oherwydd pan fydd rhywun yn syrthio, mae'n codi ar unwaith ac yn trio eto. Mae'n arwain at ddyfalbarhad.
 Catrin	Ac mae'n bosib gwneud hyn heb orfod cystadlu yn erbyn rhywun arall. Gallwch chi osod nod i'ch hunan a cheisio gwneud eich gorau glas heb deimlo o dan fygythiad.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
corsiog	fel cors	swampy, boggy
tyrau	lluosog tŵr; adeiladau uchel	towers
cyfochrog	ochr yn ochr, gyda'r un pellter rhyngddyn nhw	parallel

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
boncyff, boncyffion	rhan isaf coeden	log, logs; tree trunk, tree trunks
dyfalbarhad	y gallu i ddal ati	perseverance
teimlo o dan fygythiad	teimlo bod rhywun yn bygwth	(to) feel under threat

Robotiaid ar ras

Pan oedd sgiwyr, sglefrwyr a thoboganwyr gorau'r byd y cystadlu yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf yn Pyeongchang ym mis Chwefror eleni, roedd cystadleuaeth wahanol iawn yn digwydd rai milltiroedd i ffwrdd yn Welli Hilli Park. Dyma ble roedd wyth robot yn sgïo yn erbyn ei gilydd i lawr bryn serth yn y gobaith o ennill gwobr o \$10,000 i'r timau oedd wedi eu creu.

Y robotiaid

Roedd rheolau pendant ynglŷn â pha fath o robotiaid oedd yn cael cystadlu:

- Roedden nhw i fod i edrych fel pobl – roedd rhaid bod ganddyn nhw ddwy goes gyda chymalau oedd yn debyg i ben-eliniau a phengliniau
- Roedd rhaid iddyn nhw fod o leiaf 50 cm o daldra.
- Roedd rhaid bod ganddyn nhw system bweru annibynnol.
- Roedd rhaid iddyn nhw ddefnyddio'r un math o sgis a pholion ag y mae pobl yn eu defnyddio fel arfer.

Roedd rhai hyd yn oed yn gwisgo dillad sgïo dros eu cyrff, gan edrych yn ddeniadol iawn!



Cafwyd y llun oddi ar y fideo
yma: <https://www.youtube.com/watch?v=jreLOtVjm3k>

Y gystadleuaeth

Gan ddefnyddio synwryddion camerau i synhwyro polion fflagiau glas a choch, roedd rhaid i'r robotiaid sgïo i lawr cwrs 70 metr tebyg i gwrs Olympaidd arferol gan osgoi taro i mewn i'r polion fflagiau. Yn anffodus, doedd pob synhwyrydd ddim yn ddigon sensitif - ac aeth ambell robot yn syth i mewn i'r rhwystrau!



Yr enillydd

Yr enillydd oedd y robot lwyddodd i sgïo i lawr y bryn gyflyma, gan daro i mewn i'r nifer lleiaf o rwystrau a'i enw oedd TaekwonV, gafodd ei greu gan gwmni Minirobot o Dde Corea. Llwyddodd i sgïo o gwmpas pum rhwystr gan orffen y ras mewn 18 eiliad.

Y dyfodol

Kim Dong-Uk drefnodd y ras ac roedd o'n obeithiol y byddai'r ras yma'n arwain at rasys tebyg yn y dyfodol. "Dw i'n meddwl y bydd Gemau Olympaidd y Gaeaf yn cael eu cynnal ar gyfer robotiaid yn y dyfodol," meddai. "Bydd y rhain ar gyrion y Gemau Olympaidd arferol."

Tybed wir?

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech chi weld y robotiaid yn sgïo i lawr y bryn, ewch i:

<https://learningenglish.voanews.com/a/robot-skiers-compete-in-south-korea-near-pyeongchang-olympics/4254054.html>

<https://www.youtube.com/watch?v=jreLOtVjm3k>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
synwryddion	lluosog synhwrydd ; dyfais sy'n canfod neu'n mesur presenoldeb rhywbeth ac sy'n ei gofnodi neu'n ymateb iddo	sensors

Mis y gwyliau

Mae mis Mawrth yn fis y gwyliau, gyda nifer o wyliau pwysig yn cael eu dathlu. Mae'r Cymry'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi, wrth gwrs, mae'r Gwyddelod yn dathlu Dydd San Padrig ac mae'r Hindwiaid yn dathlu gŵyl Holi drwy daflu paent dros ei gilydd. Mae gŵyl bwysig arall yn digwydd hefyd ond ...

A large, white, rounded speech bubble with a tail pointing towards the top left, containing the text 'BETH SY'N DIGWYDD?'.

**BETH
SY'N
DIGWYDD?**

A white, starburst-shaped callout bubble with a jagged, sunburst-like edge, containing the text 'BLE?'.

BLE?

A white, rounded speech bubble with a tail pointing towards the bottom right, containing the text 'PRYD?'.

PRYD?

A white, rounded speech bubble with a tail pointing towards the bottom left, containing the text 'PAM?'.

PAM?

A white, rounded speech bubble with a tail pointing towards the bottom right, containing the text 'BETH YDY ENW'R WŶL?'.

**BETH YDY
ENW'R WŶL?**

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma'n ofalus a chwiliwch am gliwiau i ateb rhai o'r cwestiynau uchod.

Yna, ewch i Tasg 1.

Sleid 1:		Sleid 4:	
Sleid 2:		Sleid 5:	
Sleid 3:		Sleid 6:	

Sleid 1: [Las Fallas Valencia Spain, Oriental theme - Flickr - keith ellwood - keith ellwood](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution 2.0 Generic](#)

Sleid 2: [Las Fallas Spain Valencia - keith ellwood - keith ellwood](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution 2.0 Generic](#)

Chwysu peints!



Mae beth rydych chi'n ei wisgo yn dweud llawer amdanoch chi, mae'n debyg. Mae rhai pobl yn ceisio gwisgo'n smart bob amser - dyma'r bobl sy'n ceisio creu argraff, efallai. Mae rhai pobl yn gwisgo'r un dillad o ddydd i ddydd, sy'n awgrymu eu bod yn ddiffiach, o bosib.

Yn ôl seicolegwyr, mae'r lliwiau rydych chi'n dewis eu gwisgo fel arfer yn dangos eich personoliaeth, e.e. mae coch yn awgrymu pobl hyderus, porffor yw lliw pobl artistig a gwyrdd yw'r lliw ar gyfer pobl fodlon, lonydd. Mae rhai pobl yn gwisgo dillad du fel arfer - dyma'r bobl "ddifrifol" yn ôl yr arbenigwyr.

Mae dewis dillad sy'n addas ar gyfer achlysur arbennig yn bwysig, wrth gwrs. Fyddech chi ddim eisiau mynd i barti Calan Gaeaf yn gwisgo gwisg nofio, er enghraifft, nac ychwaith i farbeciw ganol haf yn gwisgo cot gaeaf. Yn yr un modd, rhaid gwisgo dillad chwaraeon os ydych chi'n mynd i gadw'n heini yn y gampfa.

Yn y dyfodol, mae'n bosib y bydd pobl yn gwisgo dillad am reswm arall hefyd oherwydd mae'n bosib y bydd dillad y dyfodol yn gallu cynhyrchu ynni. Mae ymchwilyr ym mhrifysgol Binghamton, yn nhalaith Efrog Newydd, wedi bod yn gweithio ar fatri sy'n cael ei bweru gan y bacteria sydd mewn chwys. Mae'r batri ar ffurf defnydd ac mae'n bosib ei ddefnyddio mewn dillad - fel dillad ymarfer corff, sanau, trôns - unrhyw ddilledyn sy'n derbyn chwys y corff mae'n siŵr. Felly, y tro nesaf y byddwch chi'n gweld sanau chwyslyd ar lawr y ganolfan hamdden - neu hyd yn oed yn eich cartref - peidiwch â throï'ch trwyn i fyny a chwyno! Gallen nhw fod yn ffynhonnell ynni bwysig!

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
creu argraff	gwneud i rywun feddwl yn dda amdanoch chi	(to) create an impression
difflach	heb ei ysbrydoli	uninspired
yn yr un modd	felly hefyd	in the same way